# ENVIRONMENT & INFRASTRUCTURE

## WATER

**THE NATURAL RESOURCES BODY FOR WALES**
**WATER RESOURCES ACT 1991**
**THE RIVER SEVERN ROD AND LINE (SALMON) (WALES) EMERGENCY BYELAWS 2019**

Notice is hereby given that the Natural Resources Body for Wales in exercise of its powers under section 210 of, and paragraph 6(1)(b) of Schedule 25 and Schedule 27 to, the Water Resources Act 1991 and all other powers enabling it in that behalf, makes the following emergency byelaws for the protection and preservation of fisheries within the River Severn in Wales.

**Byelaw 1 – Title**

These Byelaws may be cited as the River Severn Rod and Line (Salmon) (Wales) Emergency Byelaws 2019.

**Byelaw 2 – Application**

(a) These Byelaws will apply to that part of the River Severn and its tributaries in Wales where Natural Resources Wales carries out its functions relating to fisheries.

(b) For paragraph (b) of Byelaw 2 of the Wales Salmon Protection Emergency Byelaws 2018 there shall be substituted

"(b) These Byelaws will apply to those rivers in Wales where Natural Resources Wales carries out its functions relating to fisheries with the exception of the River Severn and its tributaries in Wales."

(c) These Byelaws will come into force on the 28th September 2019.

**Byelaw 3 – Interpretation**

In these Byelaws unless the context otherwise requires

(a) "Natural Resources Wales" means the Natural Resources Body for Wales.

(b) "the River Severn" means the area of the catchment of the River Severn and of all watercourses draining or flowing, directly or indirectly, into it, which are wholly within Wales.

(c) "Salmon" means the species Atlantic Salmon (*Salmo Salar*).

(d) "Wales" means the whole of Wales, together with such part of the territorial sea adjacent to Wales as extends for six miles from the baselines from which the breadth of that sea is measured.

(e) Except as provided above or where the context otherwise requires all words and expressions used in these Byelaws shall have the meanings assigned to them by the Salmon and Freshwater Fisheries Act 1975, the Water Resources Act 1991 and Environment Act 1995 or any statutory modifications or re-enactment thereof.

**Byelaw 4 – Prohibition on the retention of salmon from the River Severn taken by rod and line**

(a) No person shall remove or retain a salmon that has been taken by rod and line in the River Severn.

(b) Any salmon that has been taken by rod and line shall be returned immediately to the river at the point of capture with the least possible injury.

**Byelaw 5 – Early Season Method Restriction for Salmon with Rod and Line**

Any person who fishes for, takes or attempts to fish for or attempts to take any salmon with rod and line by any means other than an artificial fly or artificial lure before the 16th day of June in any calendar year shall be guilty of an offence.

**Byelaw 6 – Exemptions**

These Byelaws shall not apply to any employee of Natural Resources Wales acting in their official capacity or to any person who, with the permission in writing of Natural Resources Wales and acting in accordance with any conditions attached to that permission, carries out work connected with the maintenance, improvement or development of fisheries or for scientific purposes

The controls are intended to be in place for 12 months unless revoked or extended.

Copies of the byelaws have been deposited at the offices at the addresses shown here and will be open to inspection free of charge from Monday to Friday during normal office hours. A copy of the byelaws will be supplied by these offices on demand free of charge to any person or by emailing Fisheries.Wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

*Sarah Asbrey,* Head of Legal Services

**Addresses of NRW Offices:** Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff, CF24 0TP, Welsh Government Building, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR

**CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**
**DEDDF ADNODDAU DŴR 1991**
**IS-DDEDDFAU BRYS GWIALEN A LLINYN AFON HAFREN (EOGIAID) (CYMRU) 2019**

Rhoddir rhybudd trwy hyn fod Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth ymarfer ei bŵer o dan adran 210 a pharagraff 6(1)(b) o Atodlen 25 ac Atodlen 27 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, a'r holl bwerau eraill sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud yr is-ddeddfau brys canlynol er mwyn gwarchod a chadw pysgodfeydd o fewn afon Hafren yng Nghymru.

**Is-ddeddf 1 – Teitl**

Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Brys Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid) (Cymru) 2019.

**Is-ddeddf 2 – Defnydd**

(a) Bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r rhan honno o afon Hafren a'i hisafonydd yng Nghymru lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd.

(b) Bydd paragraff (b) Is-ddeddf 2 Is-ddeddfau Brys Diogelu Eogiaid Cymru 2018 yn cael ei amnewid

"(b) Bydd yr Is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r afonydd hynny yng Nghymru lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd ac eithrio afon Hafren a'i hisafonydd yng Nghymru."

(c) Daw'r is-ddeddfau hyn i rym ar 28 Medi 2019.

**Is-ddeddf 3 – Dehongliad**

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

(a) Ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(b) Ystyr "afon Hafren" yw ardal dalgylch afon Hafren a'r holl gyrsiau dŵr sy'n draenio neu sy'n llifo iddi, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd yng Nghymru yn unig.

(c) Ystyr "eog" yw rhywogaeth "eog yr Iwerydd" (*Salmo salar*).

(d) Mae "Cymru" yn golygu Cymru gyfan, ynghyd â'r rhannau hynny o'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos â Chymru hyd at chwe milltir o'r gwaelodlinau y mae lled y môr hwnnw'n cael ei fesur ohonynt.

(e) Ac eithrio fel y darperir uchod neu lle mae'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a roddir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau statudol neu ailddeddfiad ohonynt.

**Is-ddeddf 4 – Gwahardd cadw eogiaid o afon Hafren a ddaliwyd gan wialen a llinyn (**

a) Ni chaniateir i neb dynnu eog o'r dŵr a ddaliwyd gan wialen a llinyn yn afon Hafren, na'i gadw.

(b) Rhaid dychwelyd unrhyw eog a dynnir o'r dŵr gan wialen a llinyn i'r afon ar unwaith, yn y fan y'i daliwyd, gan achosi'r niwed lleiaf posibl iddo.

**Is-ddeddf 5 – Cyfyngiad Tymor Cynnar ar Ddull Pysgota Eogiaid â Gwialen a Llinyn**

Bydd unrhyw unigolyn sy'n pysgota am, sy'n cymryd neu sy'n gwneud ymgais i bysgota am neu wneud ymgais i gymryd unrhyw eog â gwialen a llinyn drwy unrhyw ddull ar wahân i bryf artiffisial neu lith pysgota artiffisial cyn 16 Mehefin o fewn unrhyw flwyddyn galendr yn euog o drosedd.

**Is-ddeddf 6 – Esemptiadau**

Ni fydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i gyflogai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithio yn ei rinwedd swyddogol neu i unrhyw unigolyn sydd, gyda chaniatâd ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn unol ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwnnw, yn cynnal gwaith sy'n ymwneud â chynnal, gwella neu ddatblygu pysgodfeydd neu at ddibenion gwyddonol.

Bwriedir y bydd y mesurau rheoli hyn ar waith am 12 mis oni bai eu bod yn cael eu diddymu neu eu hestyn.

Dosbarthwyd copïau o'r is-ddeddfau i'r swyddfeydd yn y cyfeiriadau a ddangosir yma ac mae croeso i'w harolygu yn rhad ac am ddim rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn ystod oriau cyffredin y swyddfa.